



Clinig Gyrru Drwodd  
Diabetes Paediatrig  
Paediatric Diabetes  
Drive Through

# Adroddiad Blynyddol 2020

Cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â diabetes

[www.cypdiabetesnetwork.nhs.uk/wales](http://www.cypdiabetesnetwork.nhs.uk/wales)

 @CYPDN\_Wales

 [cyp.diabetesnetwork@wales.nhs.uk](mailto:cyp.diabetesnetwork@wales.nhs.uk)



# Helô a chroeso i Adroddiad Blynyddol 2020

Erbyn hyn mae llawer ohonom wedi blino sôn am effeithiau'r pandemig ar ein bywydau bob dydd. Mae'r cyfyngiadau amrywiol wedi effeithio ar holl dimau'r Rhwydwaith mewn gwahanol ffyrdd.

Mae llawer o staff diabetes pediatrig wedi bod yn gweithio mewn rhannau eraill o'r GIG i helpu i ofalu am bobl sy'n ddifrifol wael gyda'r coronafeirws Covid-19. Ar yr un pryd, mae timau wedi ceisio parhau i ddarparu cymaint o ofal â phosibl i blant a phobl ifanc sydd â diabetes, a'u teuluoedd.

Fel Rhwydwaith rydym wedi dysgu llawer yn ystod y pandemig hwn ac rydym wedi crynhoi rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd mewn adroddiad arbennig ar dudalen 3.

Effeithiodd y pandemig hefyd ar ein cynlluniau fel Rhwydwaith y llynedd. Yn 2020 roeddem yn bwriadu dathlu Pen-blwydd y Rhwydwaith yn bump oed. Fodd bynnag, bu'n rhaid canslo'r dathliadau. Mae edrych yn ôl ar y pum mlynedd diwethaf ac adolygu'r hyn a gyflawnwyd a'r heriau a wynebwyd yn dal i fod yn ddefnyddol serch hynny. Ewch i dudalen 4 i ddarllen ein hadolygiad 5 mlynedd.

Ac er gwaethaf y newidiadau a ofodwyd arnom, mae yna rai pethau gwych i adrodd amdanynt ynglŷn â 2020. Cewch ragor o wybodaeth am Mel y Mammoth Diabetes, a sut mae Grŵp SEREN wedi cyflawni rhywbeth cwbl newydd ym maes addysg strwythuredig pediatrig, yng nghrynodeb 2020 ar dudalen 3.

Ar ran y Rhwydwaith, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r timau yng Nghymru am eu gwaith caled yn cynnal gwasanaethau yn ystod blwyddyn anodd. Hoffwn ddiolch hefyd i'n Tîm Rhwydwaith bach am gadw'r ffrydiau gwaith cenedlaethol i fynd ac am ymateb i sefyllfoedd brys.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn eich ysbrydoli a'i fod yn adroddiad calonogol. Mae wedi bod yn gyfnod tywyll i lawer ohonom, ond edrychwn ymlaen at ddyddiau gwell i ddod.

Cofion gorau,

## Dauida Hawkes

Dr Dauida Hawkes

Cadeirydd, Rhwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc

Dilynwch y Rhwydwaith ar Twitter @CYPDN\_Wales Anfonwch neges e-bost i'r rhwydwaith ar [cyp.diabetesnetwork@wales.nhs.uk](mailto:cyp.diabetesnetwork@wales.nhs.uk)

## Cynnwys

Cyflwyniad gan Dr Dauida Hawkes .....	2	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan .....	8	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda .....	12
Cyflawniadau a Heriau yn 2020 ...	3	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr .....	9	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe .....	13
Pum Mlynedd o Rwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc.....	4	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro .....	10	Adroddiad Blynyddol Grŵp Aberhonddu .....	14
Mesur ansawdd y gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â diabetes .....	6	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgganwg .....	11	Beth nesaf i Wasanaethau Diabetes Pediatrig yng Nghymru?.....	16

# Cyflawniadau a Heriau yn 2020

## Dyma Mel y Mamoth

Yn 2020... lanswyd *Sut i Reoli Mamoth* yn swyddogol yng Nghyfarfod y Rhwydwaith ym Merthyr Tudful ym mis Chwefror. Ysgrifennwyd y llyfr newydd gan Dr Rose Stewart ac mae'n rhan o gyfres o gyhoeddiadau Trafod Math 1 sy'n cynnig cymorth seicolegol i bobl sy'n byw gyda diabetes Math 1.

Yn *Sut i Reoli Mamoth* mae Jake, sy'n 8 oed, yn sôn am sut mae'n dysgu i fyw gyda mamoth o'r enw Mel, a ddaeth i fyw gyda Jake a'i deulu ar ôl i Jake gael diagnosis o ddiabetes. Mae'r llyfr yn cynnwys syniadau ac awgrymiadau ynghylch sut y gall Jake a'i deulu ddod o hyd i ffyrdd o gyd-dynnu â Mel, hyd yn oed pan fydd Mel yn annifyr iawn.

[Darllenwch ragor am anturiaethau Mel a Jake](#)



## Ymateb i'r pandemig

Yn 2020... bu'n rhaid i dimau ledled Cymru wneud pethau'n wahanol iawn. Mae'r datblygiadau arloesol yn cynnwys:

- Apwyntiadau clinig rhithwir â theuluoedd
- Sesiynau addysg rhithwir gan gadw pellter cymdeithasol
- Profi am HbA1c "drwy ffenest y car"
- Cynnal "ymweliad" ar gyfer adolygiad gan gymheiriad ar blatfform rhithwir

Mae'n debyg y bydd llawer o'r newidiadau hyn yn parhau fel rhan o'r gwasanaethau a gynigir i deuluoedd, hyd yn oed wrth i amgylchiadau wella o ran lefelau'r haint.

Mae gwybodaeth am y pandemig ar gael ar dudalennau gwe [Rhwydwaith y DU](#)



Adroddiad Blynyddol 2020



## SEREN ar flaen y gad

Yn 2020... rhaglen SEREN oedd y rhaglen addysg diabetes pediatriig gyntaf i gael achrediad gan Sefydliad Ansawdd Addysg a Hyfforddiant Hunanreoli (QISMET), ar gyfer modiwl SEREN adeg Diagnosis.

"Mae cael achrediad yn golygu y gall timau diabetes fod yn hyderus eu bod yn cyflwyno rhaglen addysg o safon sy'n cyrraedd safonau a gwynbyddir yn genedlaethol!" - Claire Baker  
Cydlynnydd SEREN

[Mae'r stori lawn ar gael ar-lein](#)



## Mynediad i Ap DigiBete i bob teulu

Yn 2020 ... cafodd y Rhwydwaith gyllid gan Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru gyfan er mwyn cael gafael ar Ap DigiBete ar ran pob teulu sydd â phlentyn neu berson ifanc â diabetes Math 1 sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r ap yn rhoi mynediad i blatfform addysgol DigiBete, sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae timau ledled Cymru bellach yn defnyddio Ap DigiBete i gyfathrebu gwybodaeth bwysig â theuluoedd.

Gellir lawrlwytho'r Ap ar gyfer systemau gweithredu Apple neu Android ac mae ar gael yn rhad ac am ddim os bydd teuluoedd yn defnyddio cod sydd ar gael gan eu tîm clinig.

[Darllenwch ragor am yr ap](#)



Mae dros hanner y teuluoedd a gefnogir gan dimau diabetes yng Nghymru wedi lawrlwytho Ap DigiBete!

# Pum mlynedd o Diabetes Cymru a Phobl Ifanc

**Ein pum nod - sut rydym yn dod yn ein blaenau ar ôl pum mlynedd?**

Pan lanswyd Rhwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc, nodwyd pum ffrwd waith allweddol yng Nghymru. Dyma adroddiad ar ein cynnydd.

Enillodd SEREN Wobr Ansawdd mewn Gofal Diabetes yn 2017

## **Addysg Strwythuredig –**

Rhaglen addysg strwythuredig pediatriig i Gymru gyfan yw SEREN ar gyfer plant a theuluoedd sydd â diabetes. Fe'i datblygwyd a'i rhoi ar waith ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae prosiect gwerthuso diweddar o'r modiwl diagnosis wedi dangos sut mae'r rhaglen hon wedi gwella bywydau pobl ifanc sydd â diabetes. Mae modiwlau pellach i gefnogi plant hefyd wedi'u rhoi ar waith.

Mae timau diabetes y tu allan i Gymru hefyd wedi prynu SEREN

## **Lleihau Cetoasidosis Diatbetig (DKA) adeg Diagnosis –**

mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru bellach yn defnyddio Llwybr Atgyfeirio i sicrhau bod plant â symptomau diabetes yn cael eu profi ar unwaith. Adroddir am brofion amhriodol neu oedi cyn cael diagnosis drwy system adrodd digwyddiadau DATIX. Mae'r Rhwydwaith wedi gweithio'n agos â Diabetes UK Cymru ar eu hymgyrch ymwybyddiaeth Adnabod Math 1. Er bod plant yn dal i ymgyflwyno â DKA, mae oedi o ran cael diagnosis yn llawer mwy anghyffredin nawr nag yr oedd bum mlynedd yn ôl.



# Rwydwaith i Blant

## Darparu cyngor arbenigol y Tu Allan i Oriau –


yn anffodus cafodd cynlluniau i lansio llinell gynghori y Tu Allan i Oriau ar gyfer Cymru gyfan mewn partneriaeth â Galw Iechyd Cymru eu gohirio yn 2019 oherwydd problem yn ein sefydliad partner. Cawsant eu gohirio eto yn 2020 oherwydd y pandemig. Mae'r ffrwd waith hon wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

## Gwella "Pontio" –

mae pontio at wasanaethau oedolion yn gyfnod anodd i lawer o bobl ifanc. Mae'r Rhwydwaith wedi cefnogi cyflwyno *Safon Cymru Gyfan ar gyfer Pobl â Diabetes sy'n Symud o Wasanaethau Pediatrig i Wasanaethau Oedolion yn y GIG yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2017. Mae timau pediatrig ledled Cymru wedi gweithio'n agos â gwasanaethau oedolion i gyflwyno clinigau ar y cyd a darparu addysg strwythuredig sy'n addas i'r oedran drwy raglen SEREN Connect sydd wedi ennill sawl gwobr.

## Gwella gofal mewn ysgolion –

ar y cyd â Diabetes UK Cymru a'r Gynghrair Gofal mewn Ysgolion, helpodd y Rhwydwaith i sicrhau y byddai plant â chyflyrau meddygol megis diabetes yn cael eu diogelu yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a basiwyd gan y Senedd. Dylai hyn ei gwneud hi'n haws i blant sydd â diabetes gael y cymorth y gallai fod ei angen arnynt i reoli eu cyflwr yn yr ysgol. Yn fwy diweddar, treialwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer staff ysgolion ynglŷn â diabetes ac mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i'w chwblhau yn 2021.



# Mesur ansawdd y gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â diabetes


## Sut yr ydym yn perfformio yng Nghymru?

Mae'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol (NPDA) yn mesur ansawdd y gofal a ddarparwn, a'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi dewis rhai categorïau pwysig sy'n dangos pa mor dda y mae timau'n darparu gofal ac yn cefnogi pobl ifanc.

## Golwg genedlaethol

Rydym yn defnyddio HbA1c yn brif ddangosydd rheolaeth lwyddiannus ar ddiabetes ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru. Eleni, mae'r cyfartaledd canolrifol ar gyfer yr HbA1c wedi aros ar 62 mmol/mol yng Nghymru. Mae'r siart (ar y dde) yn dangos lefelau HbA1C ers 2009/10.

Rydym wedi cyhoeddi cyfraddau'r HbA1c canolrifol ar gyfer pob uned ar dudalennau'r bwrdd iechyd. Mae'r NPDA yn argymhell defnyddio canolrif yr uned HbA1c i adolygu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn gan fod canlyniadau eithafol yn effeithio llai ar y sgôr ganolrifol.




## Effaith y pandemig ar ddata archwilio

Er bod y pandemig wedi effeithio ar wasanaethau yn 2020, mae'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â gwaith timau rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020. Felly, dim ond mis olaf y data fydd wedi'i effeithio gan y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai y bu problemau o ran cyflwyno'r data oherwydd prinder staff o ganlyniad i adleoli.

Rydym yn disgwyl i effaith y pandemig ar brosesau a chanlyniadau gofal fod yn amlwg yn ein hadroddiad blynyddol nesaf fydd yn cwmpasu'r flwyddyn archwilio Ebrill 2020-Mawrth 2021.


## Deall y diagramau plotiau radar

Mae'r Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol (NPDA) yn mesur saith agwedd wahanol ar ofal sy'n gysylltiedig ag effaith diabetes ar iechyd unigolyn. Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y prosesau gofal hyn, yn dibynnu ar eu hoedran.



Y llinell werdd yw'r targed – 100%. Y llinell lwyd yw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Y llinell las yw'r cyfartaledd yn Rhwydwaith Cymru. Y llinell goch yw sut y mae'r uned unigol wedi sgorio yn yr NPDA.

## Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn




Y llinell werdd yw'r targed – 100%. Y llinell goch solet yw sut y mae'r uned unigol wedi sgorio yn yr NPDA yn 2018-19. Y llinell goch doredig yw data'r uned unigol o'r NPDA yn 2017-18.



## Gwybodaeth o'r Archwiliad Diabetes Peditrig Cenedlaethol (NPDA)

Mae'r graffiau hyn yn dangos sut y bu i'r unedau yng Nghymru berfformio o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2019-20, sef y data cyhoeddus diweddaraf, ac maent hefyd yn dangos yr amrywiad rhwng unedau. Rydym wedi rhifo'r unedau i'w gwneud yn haws gweld sut y mae unedau'n perfformio.




Os yw uned yn y 'twndis' yng nghanol y graff, yna mae'r uned honno'n darparu gofal sy'n cyfateb i unedau eraill. Mae'r llinellau toredig yn dynodi unedau y mae eu canlyniadau o fewn "dau wyriad safonol" neu "dri gwriad safonol" o'r cyfartaledd. Mae cael ei gosod y tu allan i'r twndis yn dangos bod uned naill ai wedi gwneud yn llawer gwell na'r cyfartaledd, neu nad yw'n cael ei chofnodi yn un sy'n darparu gofal i'r un lefel ag unedau eraill. Mae'r NPDA yn dosbarthu unedau dros 2 wyriad safonol (SD) o'r cyfartaledd yn 'rhybudd', a dros 3 SD yn 'fraw'.



### Cyflawni prosesau gofal



### Canlyniadau HbA1c



### Sgoriau NPDA ar gyfer Unedau Diabetes Peditrig yng Nghymru

**KEY:**

- |                            |                            |                                       |
|----------------------------|----------------------------|---------------------------------------|
| 1)  Ysbyty Nevill Hall     | 5)  Ysbyty Gwynedd         | 9)  Ysbyty Brenhinol Morgannwg        |
| 2)  Ysbyty Brenhinol Gwent | 6)  Ysbyty Athrofaol Cymru | 10)  Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 3)  Ysbyty Glan Clwyd      | 7)  Ysbyty'r Tywysog Siarl | 11)  Ysbyty Treforys                  |
| 4)  Ysbyty Maelor Wrecsam  | 8)  Ysbyty Tywysoges Cymru | 12)  Ysbyty Castell-nedd Port Talbot  |



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



## Nevill Hall

(81 o gleifion)  
Cleifion pwmp 28.6%  
(2019: 18.8%)



## Brenhinol Gwent

(198 o gleifion)  
Cleifion pwmp 33.7%  
(2019: 26.6%)

Perfformiad 2020



Cymhariaeth bliwyddyn ar ôl bliwyddyn



HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
68.0	2020 53.5
66.0	2019 78.8
67.8	2018 73.2
68.0	2017 68.1
69.5	2016 63.4
71.0	2015 Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▲ 2 mmol/mol	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▼ 25.3 pwyntiau canran

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
66.0	2020 51.6
62.0	2019 66.3
63.0	2018 55.7
63.0	2017 66.7
64.5	2016 50.1
68.0	2015 Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▲ 4 mmol/mol	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▼ 14.7 pwyntiau canran

■ Perfformiad unedau 2020 ■ Perfformiad unedau 2019 ■ Cymru ■ Cymru a Lloegr ■ Targed y nod

A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)





# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Glan Clwyd

(128 o gleifion)  
Cleifion pwmp 16.8%  
(2019: 9.6%)









## Maelor Wrecsam

(103 o gleifion)  
Cleifion pwmp 43.3%  
(2019: 31.7%)



## Gwynedd

(103 o gleifion)  
Cleifion pwmp 26.5%  
(2018: 19.8%)



HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
61.0	2020 62.0
61.5	2019 62.5
65.5	2018 56.5
63.0	2017 38.9
67.0	2016 39.3
73.0	2015 Ddim ar gael/a

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
56.0	2020 66.7
55.8	2019 76.2
60.0	2018 77.1
59.0	2017 89.1
65.0	2016 85.0
66.1	2015 Ddim ar gael

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
57.0	2020 50.0
61.0	2019 57.5
66.8	2018 26.7
64.3	2017 10.6
65.0	2016 0.0
65.5	2015 Ddim ar gael

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam yn allanolyn cadarnhaol yn yr NPDA ar gyfer HbA1c

Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼ 0.5 mmol/mol	Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼ 0.5 pwyntiau canran
--	---

Y newid mewn 1 flwyddyn: ▲ 0.2 mmol/mol	Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼ 9.5 pwyntiau canran
--	---

Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼ 4.0 mmol/mol	Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼ 7.5 pwyntiau canran
--	---

■ Perfformiad unedau 2020 ■ Perfformiad unedau 2019 ■ Cymru ■ Cymru a Lloegr ■ Targed y nod  
A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol ; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol ; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Ysbyty Athrofaol Cymru




(199 o gleifion)  
Cleifion pwmp 37.6%  
(2019: 33.3%)


Gellir cyrchu holl fesurau'r NPDA ar gyfer pob uned yng Nghymru trwy **ganlyniadau ar-lein yr NPDA**. Gallwch gymharu unedau â'i gilydd ar draws ystod gyfan o fetrigau, gan gynnwys: ystadegau poblogaeth megis ethnigrwydd; a yw plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth sgrinio seicolegol; cyflenwi addysg cyfrif carbohydradau; nifer y plant â chyflyrau awto-imiwn eraill; derbyniadau brys i ysbytai, a llawer mwy.

Ewch i [www.rcpch.ac.uk/resources/npda-results-online-find-your-results-national-paediatric-diabetes-audit](http://www.rcpch.ac.uk/resources/npda-results-online-find-your-results-national-paediatric-diabetes-audit) i gyrchu'r holl ffigurau gwahanol

Perfformiad 2020



Cymhariaeth blwyddyn ar ôl blwyddyn



HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol	
61.0	2020	71.9
63.0	2019	88.7
65.8	2018	69.9
66.0	2017	73.0
64.0	2016	75.0
72.0	2015	Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▼ <b>2</b> mmol/mol	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b> ▼ <b>16.8</b> pwyntiau canran	

■ Perfformiad unedau 2020   ■ Perfformiad unedau 2019   ■ Cymru   ■ Cymru a Lloegr   ■ Targed y nod

A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol ; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol ; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Tywysog Siarl







(97 o gleifion)  
Cleifion pwmp 70.8%  
(2019: 72.7%)

## Tywysoges Cymru

(82 o gleifion)  
Cleifion pwmp 24.7%  
(2019: 26.8%)

## Brenhinol Morgannwg

(87 o gleifion)  
Cleifion pwmp 51.8%  
(2019: 50.0%)



HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
62.0	2020 69.6
61.3	2019 92.2
61.0	2018 58.7
58.5	2017 86.4
60.0	2016 58.5
61.0	2015 Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▲0.7 mmol/mol</b>	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼22.6 pwyntiau canran</b>

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
64.0	2020 68.6
64.3	2019 76.3
71.5	2018 71.7%
66.0	2017 51.4%
65.0	2016 Ddim ar gael
71.5	2015 Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼0.3 mmol/mol</b>	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼7.7 pwyntiau canran</b>

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
65.0	2020 79.3
63.0	2019 91.4
65.0	2018 22.2
61.0	2017 97.8
62.0	2016 95.6
66.0	2015 Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▲2.0 mmol/mol</b>	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn: ▼12.1 pwyntiau canran</b>

■ Perfformiad unedau 2020    ■■ Perfformiad unedau 2019    ■ Cymru    ■■ Cymru a Lloegr    ■ Targed y nod  
 A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol ; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol ; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda


## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda




(183 o gleifion)  
Cleifion pwmp 55.9%

Mae tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gofalu am blant mewn tri ysbyty (Ysbyty Bronglais, Aberystwyth; Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin; Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd). Yn 2020 cafodd gwybodaeth am yr ysbytai hyn ei chrynhoi mewn un adroddiad. Mae'r tîm yn gofalu am 183 o gleifion.

Perfformiad 2020



Cymhariaeth blwyddyn ar ôl blwyddyn



Gan nad oes cymhariaeth uniongyrchol â ffigurau'r flwyddyn flaenorol, nodwyd y ffigurau uchaf a'r isaf o'r tair uned yn adroddiad 2018-19.

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol
57.0	2020 84.8
64.0 (Glangwili)	Uchaf 2019 59.5 (Glangwili)
55.0 (Bronglais)	Isaf 2019 40.0 (Llwynhelyg)

Y newid mewn 1 flwyddyn: ▲ 2 mmol/mol	Y newid mewn 1 flwyddyn: ▲ 44.8 pwyntiau canran
--	--

■ Perfformiad unedau 2020 ■ Perfformiad unedau 2019 ■ Cymru ■ Cymru a Lloegr ■ Targed y nod


A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)



# Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe


## Treforys

(137 o gleifion)  
Cleifion pwmp 44.6%  
(2019: 42.6%)





## Castell-nedd Port Talbot

(64 o gleifion)  
Cleifion pwmp 28.8%  
(2019: 28.6%)



Perfformiad 2020



Cymhariaeth blwyddyn ar ôl blwyddyn

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol	
64.5	2020	79.7
66.0	2019	69.0
70.3	2018	50.0
68.0	2017	42.9
66.0	2016	55.1
69.4	2015	Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b>	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b>	
<b>▼ 1.5 mmol/mol</b>	<b>▲ 10.7 pwyntiau canran</b>	

HbA1c Canolrifol	% yn cael pob un o'r 7 gwiriad hanfodol	
60.0	2020	91.7
64.5	2019	89.3
65.0	2018	86.7
64.0	2017	85.7
66.0	2016	38.9
70.0	2015	Ddim ar gael
<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b>	<b>Y newid mewn 1 flwyddyn:</b>	
<b>▼ 4.5 mmol/mol</b>	<b>▲ 2.4 pwyntiau canran</b>	

■ Perfformiad unedau 2020   
 ■ Perfformiad unedau 2019   
 ■ Cymru   
 ■ Cymru a Lloegr   
 ■ Targed y nod  
 A – gwiriad iechyd HbA1c (%); B – % HbA1c wedi'i gymhwyso <58 mmol/mol ; C – HbA1c heb ei gymhwyso <80 mmol/mol ; D – Cyfradd cwblhau gwiriadau iechyd\* (12 oed+); E – Gwiriad iechyd archwilio traed (12 oed+) (%); F – Gwiriad iechyd sgrinio llygaid (12 oed+) (%); G – Gwiriad iechyd albiwminwria (12 oed+) (%); H – Gwiriad iechyd pwysedd gwaed (12 oed+) (%); I – Gwiriad iechyd BMI (%); J – Gwiriad iechyd thyroid (%)

# Adroddiad Blynyddol Grŵp Aberhonddu 2020

## Neges gan Swyddog Aberhonddu

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn arbennig o anodd i'r holl dimau diabetes, ac i'n teuluoedd a phlant a phobl ifanc sy'n byw gyda diabetes. Er gwaethaf yr anawsterau eleni, fe wnaethom lwyddo i gynnal Cyfarfod Gwyddonol Blynyddol Grŵp Aberhonddu, ond yn rhithwir.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad aruthrol ein haelodau ac yn dymuno pob lwc i'r rhai sydd wedi gadael yn eu hymdrechion ac yn croesawu llawer o wynebau newydd i'n plith yng Ngrŵp Aberhonddu sy'n ehangu byth a beunydd. Parhaodd yr holl unedau diabetig pediatrig i ddarparu data cleifion newydd drwy gydol y cyfnod hwn. Fodd bynnag, oherwydd yr heriau eleni yn sgil COVID-19 bydd rhai o'r tablau isod yn dangos unrhyw effeithiau niweidiol y gallai hyn fod wedi'u cael ar ddigwyddedd a nifer yr achosion o ddiabetes yn 2020.

O ganlyniad i ymroddiad parhaus holl aelodau Grŵp Aberhonddu mae gennym bron i 25 mlynedd o ddata cadarn ar gofrestr diabetes Aberhonddu. Casglwyd a dadansoddwyd y data gan yr Athro John Harvey et al ac rydym yn hynod gyffrous iawn i gyhoeddi bod yr erthygl bellach wedi'i chyhoeddi yn y *Journal for Diabetes Research and Clinical Practice*.

### Aelodau Grŵp Aberhonddu:

Grŵp o glinigwyr sy'n cynrychioli holl wasanaethau diabetes pediatrig yng Nghymru

### Tîm Grŵp Aberhonddu:

Swyddog Aberhonddu: Dr Kamal Weerasinghe

Cynullydd y Cyfarfod Gwyddonol Blynyddol: Dr Shikha Jain

Cynrychiolydd y Tîm Amlddisgyblaethol: Sophie Lennon, Deietegydd Pediatrig

Rheolwr Gweinyddu/Data: Heather O'Connell

## Uchafbwyntiau:

- Mae digwyddedd diabetes math 1 sy'n cychwyn yn ystod plentyndod yng Nghymru wedi cyrraedd uchafbwynt
- Mae nifer yr achosion yn amrywio yn ôl y tymor sy'n awgrymu dylanwad fitamin D
- Efallai bod cynnydd yn yr oriau o olau haul er 1980 yn cyfrannu at hyn

## Uchafbwyntiau Rhith-gyfarfod Gwyddonol Blynyddol Grŵp Aberhonddu (20 Tachwedd 2020)

- Cyflwyniadau a thrafodaethau'n ymwneud ag achosion o gyflyrau endocrin
- Cyflwyniadau a thrafodaethau'n ymwneud ag achosion o ddiabetes
- Adolygu Cerdyn Steroid Cymru Gyfan
- Effaith COVID-19 ar ddiabetes mellitus math 1 (T1DM) ymysg plant
- Y wybodaeth ddiweddaraf am SEREN
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil Carfan Aberhonddu
- Adborth gan dimau amlddisgyblaeth mewn byrddau iechyd ynglŷn â gwelliannau ymarferol cysylltiedig â COVID-19
- Cyfarfod busnes Grŵp Aberhonddu

### Hysbysiadau misol am ddiabetes math 1 2020

Ion 11	Chwef 18	Maw 7	Ebrill 12
Mai 15	Meh 19	Gorff 21	Awst 12
Medi 9	Hyd 16	Tach 19	Rhag 18

### Cyfanswm yr achosion newydd o ddiabetes math 1 dros 5 mlynedd

2016 166	2017 161	2018 167	2019* 173	2020* 177
-------------	-------------	-------------	--------------	--------------

\*Niferoedd yn amodol ar gofrestrïadau coll, ac nid ydynt yn cynnwys achosion a drosglwyddwyd i mewn

Mae cyfanswm nifer y cleifion newydd â diabetes math 1 dros 5 mlynedd yn dangos cynnydd yn niferoedd yr unedau, ond mae <15 oed fesul 100,000 o achosion yn dangos gostyngiad bach yn 2020. Amser a ddengys a fydd effaith COVID-19 yn cael ei unioni yn 2021.

**Cyfraddau digwyddedd diabetes math 1 dan 15 oed**

Blwyddyn	Achosion	Y Boblogaeth (105)	Cyfraddau digwyddedd	Oedran
2016	145	5.23	27.2	dan 15
2017	149	5.26	28.3	dan 15
2018	150	5.29	28.4	dan 15
2019	165	5.29	31.2	dan 15
2020	160	5.30	30.2	dan 15

**Effaith COVID-19 ar gyfraddau cetoasidosis diabetig (DKA):**

Math 1	2017	2018	2019	2020
DKA dan 15 oed	47	50	54	60
DKA 15 ac 16 oed	5	3	2	3
Cyfanswm DKA	52	53	56	63
Cyfanswm Math 1	161	167	173	177
% Cyfanswm Math 1	32%	32%	32%	35.5%

*Cyfraddau DKA ymysg plant o Gymru dros y 4 blynedd diwethaf*

Cyhoeddwyd 6 papur ymchwil<sup>2-7</sup> gan ymchwilwyr y Brifysgol gan ddefnyddio data Carfan Aberhonddu o SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennu).


**Cyhoeddiadau Grŵp Aberhonddu**

1. Harvey JN, Hibbs R, Maguire MJ, O’Connell H, Gregory JW, ar ran Grŵp Aberhonddu (Grŵp Cymru gyfan â Diddordeb mewn Diabetes Pediatrig). The changing incidence of childhood-onset type 1 diabetes in Wales: Effect of gender and season at diagnosis and birth. *Diabetes Research and Clinical Practice* 2021;**175**. Ar gael: <<https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/33711398/>> [Cyrchwyd 16 Mai 2021]
2. Allen LA, Cannings-John RL, Evans A, Thayer DS, French R, Paranjothy S, Fone DL, Dayan CM, Gregory JW. Pregnancy in teenagers diagnosed with type 1 diabetes mellitus in childhood: a national population-based e-cohort study. *Diabetologia* 2020;**63**:799-810
3. Oakley NJ, Kneale D, Mann M, Hilliar M, Dayan C, Gregory JW, French R. Type 1 diabetes mellitus and educational attainment in childhood: a systematic review. *BMJ Open* 2020;**10**:e033215. doi: 10.1136/bmjopen-2019-033215
4. Noyes J, Allen D, Carter C, Edwards D, Edwards RT, Russell D, Russell IT, Spencer LH, Sylvestre Y, Whitaker R, Yeo ST, Gregory JW. Standardised self-management kits for children with type 1 diabetes: pragmatic randomised trial of effectiveness and cost-effectiveness. *BMJ Open* 2020;**10**:e032163. doi: 10.1136/bmjopen-2019-032163
5. Townson J, Lowes L, Robling M, Hood K, Gregory JW. Health professionals’ perspectives on delivering home and hospital management at diagnosis for children with type 1 diabetes: a qualitative study from the Delivering Early Care in Diabetes Evaluation (DECIDE) trial. *Pediatr Diabetes* 2020 Apr 16. doi: 10.1111/pedi.13023
6. Cherubini V, Grimsmann JM, Åkesson K, Birkebæk NH, Cinek O, Dovč K, Gesuita R, Gregory JW, Hanas R, Hofer SE, Holl RW, Jefferies C, Joner G, King BR, Mayer-Davis EJ, Peña AS, Rami-Merhar B, Schierloh U, Skrivarhaug T, Sumnik Z, Svensson J, Warner JT, Bratina N, Dabelea D. Temporal trends in diabetic ketoacidosis at diagnosis of paediatric type 1 diabetes between 2006 and 2016: results from 13 countries in three continents. *Diabetologia* 2020; doi: 10.1007/s00125-020-05152-1
7. Gartner A, Daniel R, Farewell D, Paranjothy S, Townson J, Gregory JW. Demographic and socioeconomic patterns in the risk of alcohol-related hospital admission in children and young adults with childhood onset type-1 diabetes from a record-linked longitudinal population cohort study in Wales. *Pediatr Diabetes* 2020 Jul 31. doi: 10.1111/pedi.13089
8. Rafferty J, Stephens JW, Atkinson MD, Luzio SD, Akbari A, Gregory JW, Bain S, Owens DR, Thomas RL. A retrospective epidemiological study of type 1 diabetes mellitus in Wales, UK between 2008 and 2018. *International Journal of Population Data Science* 2020; yn y wasg

**Yn 2020:**

- Roedd 160/179 o gleifion newydd a oedd wedi cael diagnosis o ddiabetes math 1 dan 15 oed
- Roedd 19/179 yn 15 oed a throsodd
- Roedd 9/179 yn achosion nad oeddent yn fath 1/math n/k

*“gwel defnydd o’n casgliad data sy’n amlygu ymhellach yr angen am ragor o fuddsoddi ar y rhai â HbA1c uwch”*



Mae ein Rhwydwaith wedi cytuno ein bod am i'n gwasanaethau amlygu'r gwerthoedd hyn



## Beth Nesaf i Wasanaethau Diabetes Peditrig yng Nghymru?

Effeithiwyd ar y cynlluniau a amlinellwyd ar gyfer 2020 yn ein hadroddiad diwethaf gan y pwysau a roddwyd ar wasanaethau yn ystod y pandemig. Y gobaith yw y byddwn yn dychwelyd i fyw bywyd arferol yn 2021. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd llawer o'r datblygiadau arloesol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn parhau'n rhan o'n gwasanaethau am gyfnod.

Rydym fel Rhwydwaith wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaethau gorau ar gael i bob teulu yng Nghymru. Yn 2021 byddwn yn:

- 1) Cwblhau'r Rhaglen Adolygu gan Gymheiriaid ar gyfer gwasanaethau peditrig ym mhob bwrdd iechyd
- 2) Parhau i ddatblygu rhaglen addysg SEREN
- 3) Adolygu canllawiau ac arfer, gan geisio'r un safonau gofal uchel ledled Cymru
- 4) Arwain y rhaglen Ymgysylltu â Theuluoedd ar gyfer cynllun cyflawni Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc

- 5) Cyngori ar fframwaith caffael newydd i'r GIG yng Nghymru i alluogi mynediad at dechnoleg diabetes

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth barhaus:

Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan, Cydwethrediad Iechyd GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y sefydliad sy'n lletya'r Rhwydwaith), Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes Cymru Gyfan, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc, Rhwydwaith Cenedlaethol Teuluoedd gyda Diabetes, Coleg Brenhinol Peditreg ac Iechyd Plant, Diabetes UK Cymru, Sefydliad Ymchwil Diabetes Plant (JDRF), Beyond Type 1, 1BloodyDrop, Cymuned Bêl-droed Diabetes.

Cysylltu  
â ni

**Rhwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl IFanc (a Grŵp Aberhonddu)**

Yn cael ei letya gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd CF14 4XW (029) 2074 5163



cyp.diabetesnetwork@wales.nhs.uk



@CYPD\_N\_Wales